# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ar ddydd Mawrth, 26 Tachwedd 2013 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Chymunedau; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Hamdden, Ieuenctid a Datblygu Gwledig; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad, David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd, Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg

**Sylwedyddion:** Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Bill Cowie, Meirick Lloyd Davies, Huw Hilditch-Roberts, Jason McLellan a David Simmons

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM) a Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PMc), Y Prif Swyddog Cefn Gwlad (HS), Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol (PM), Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes (TB), Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol (CR), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid.

## 2 DATGAN CYSYLLTIADAU

Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o gysylltiad personol na rhagfarnus.

## 3 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, datganodd yr Arweinydd ei fod yn bwriadu cynnwys ar gyfer trafodaeth y mater cyfrinachol canlynol yr oedd gofyn rhoi sylw iddo ar frys – DIWEDDARIAD AR IAWNDAL AM GYFLOG CYFARTAL. Cytunwyd y byddai’r mater yn cael ei drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod dan Ran II yr agenda.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2013.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Hydref gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir a’u llofnodi gan yr Arweinydd.*

**5 CYDBWYLLGOR ARFAETHEDIG AR GYFER ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Jones yr adroddiad a oedd yn ceisio cefnogaeth y Cabinet i ffurfio Cydbwyllgor (CB) ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a oedd bellach yn ymestyn ar draws Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Roedd Pwyllgor presennol yr AHNE wedi argymell CB i gryfhau perthnasoedd ag awdurdodau lleol a sicrhau llywodraethu da. Roedd Arweinwyr, Prif Weithredwyr a Swyddogion Arweiniol o'r tri awdurdod lleol wedi bod yn gefnogol i'r dull.

Fe ymatebodd y Prif Swyddog Cefn Gwlad (PSCG) i gwestiynau'r aelodau, gan ymhelaethu ar y gofynion ar gyfer creu CB ynghyd â'r cynigion o ran aelodaeth, pwerau a rolau, cymorth gweithredol a'r manteision y byddai dull o'r fath yn eu dwyn. Roedd y Cabinet yn gefnogol i ddull partneriaeth ond yn ceisio sicrwydd ynghylch y rhan y byddai aelodau lleol yn ei chwarae yn y broses ynghyd ag atebolrwydd lleol. Eglurodd y PSCG y byddai aelodaeth y CB yn cael ei phennu gan bob awdurdod unigol ac y byddai'n cael ei hategu gan Bartneriaeth a Fforwm Blynyddol ar gyfer yr AHNE a fyddai'n cynnwys aelodau lleol. Byddai'r CB hefyd yn adrodd yn ôl wrth weithrediaethau/pwyllgorau'r awdurdodau lleol. Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Arweinydd amlygodd y PSCG yr effaith a gwerth economaidd posib i'r ardal o ganlyniad i'r AHNE ehangedig, yn benodol o ran twristiaeth a chyllid grant a fyddai'n arwain at ddatblygu prosiectau amrywiol.

***PENDERFYNWYD*** *gan y Cabinet –*

*(a) ei fod yn cefnogi'r syniad o ffurfio Cydbwyllgor ar gyfer AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy;*

*(b) ei fod yn cytuno y dylai'r Awdurdod lofnodi gyda Wrecsam a Sir y Fflint y Cytundeb Cyfreithiol a baratowyd gan y gwasanaethau cyfreithiol, ariannol a Swyddog yr AHNE fel y nodir yn yr atodiad wrth yr adroddiad, ac*

*(c) y dylai'r Cydbwyllgor a Phartneriaeth yr AHNE sicrhau bod aelodau lleol y mae eu wardiau'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr AHNE yn cael diweddariad ac yn cael eu hysbysu'n rheolaidd ynghylch y busnes a fydd yn cael ei ystyried gan y Cydbwyllgor a Phartneriaeth yr AHNE.*

**6 CYNLLUN COMISIYNU LLEOL CEFNOGI POBL SIR DDINBYCH 2014 - 15 A 2015 - 16**

Cyflwynodd y Cynghorydd Bobby Feely yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i'r Cynllun Comisiynu Lleol (CCLl) Cefnogi Pobl 2014/15 a 2015/16 cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd fod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau wedi ystyried a chefnogi'r CCLl.

Roedd Cefnogi Pobl (CP) yn fframwaith polisi a ffrwd cyllido a oedd yn rhoi cymorth sy'n gysylltiedig â thai i bobl agored i niwed. Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Moderneiddio a Lles sylw aelodau at y prif flaenoriaethau strategol a chamau gweithredu arfaethedig a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad ynghyd â

goblygiadau o ran cyllid sy'n deillio o'r fformwla cyllido newydd a thoriadau cyllido cyffredinol. Roedd y cynigion ar gyfer toriadau wedi cael eu cyflawni mewn ffordd strategol ac roedd buddsoddiad hefyd ym Mhrosiect Ieuenctid Dinbych a oedd wedi cael ei adnabod fel maes lle mae angen sylweddol yn bodoli.

***PENDERFYNWYD** y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl ar gyfer 2014/15 a 2015/16 a'r cynnig i'w gyflwyno i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru a Llywodraeth Cymru.*

## 7 CYNLLUNIAU TREF AC ARDAL

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans yr adroddiad a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Cabinet am y Cynlluniau Tref ac Ardal ac yn ceisio cymeradwyaeth i fabwysiadu'r Cynlluniau Ardal ar gyfer Llangollen, Corwen a Llanelwy (sydd wedi'u hatodi wrth yr adroddiad) ac i gyllido'r blaenoriaethau a oedd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau hynny. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys amserlen ar gyfer cymeradwyo cynlluniau yn y dyfodol a'r sefyllfa ariannol gyfredol.

Mae'r cynlluniau newydd yn nodi'r sefyllfa gyfredol yn y trefi a'r ardaloedd cysylltiedig, heriau a chyfleoedd allweddol ynghyd â gweledigaeth a chamau gweithredu i gyflawni'r weledigaeth honno. Roedd pob un o'r tri Chynllun Ardal wedi cael eu cymeradwyo gan eu priod Grŵp Ardal Aelodau. Ymhelaethodd y Cynghorydd Huw Jones ar y broses o gysylltu'r ardaloedd amgylchynol â threfi er mwyn adlewyrchu'r materion, camau gweithredu a blaenoriaethau o fewn y cymunedau hynny. Adroddodd y Rheolwr Datblygu Economaidd a Busnes ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran gwariant gan amlygu ymrwymiadau cyllido ac elfennau cyllid cyfatebol ynghyd â'r sefyllfa a ragwelid ar ddiwedd y flwyddyn.

Fel pwynt o sylw hysbysodd y Cynghorydd Barbara Smith fod y wardiau yn ei hardal hi wedi cael eu cysylltu â Chynlluniau Ardal gwahanol. Roedd wedi cael ei gytuno ers hynny y byddai Cwm yn rhan o Gynllun Ardal Llanelwy ynghyd â Thremeirchion a Waen.

Trafododd y Cabinet y broses ar gyfer dyraniadau cyllido a oedd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Ardal a oedd yn seiliedig yn bennaf ar broses gynnig ar gyfer blaenoriaethau o'i gyferbynnu â darpariaeth osod i bob ardal. Cafodd yr angen am fwy o eglurder o ran y cyllid sydd ar gael wrth bennu blaenoriaethau ei amlygu ynghyd ag elfennau cyllid cyfatebol a chyllid grant allanol. Codwyd cwestiynau hefyd am hyblygrwydd y Cynlluniau Ardal o ran ymateb i flaenoriaethau newidiol ac mewn achosion lle'r oedd y blaenoriaethau'n wahanol i bolisi'r Cyngor Sir. Fe wnaed sylwadau ynghylch yr amser a gymer i ddatblygu'r Cynlluniau Ardal a'r angen i ganlyn arni â'r blaenoriaethau heb ormod o oedi. Fe ymatebodd y swyddogion i gwestiynau a sylwadau'r aelodau fel a ganlyn –

- fe ymhelaethwyd ar waith a oedd yn mynd rhagddo i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg ar draws y sir gyda chanllawiau pellach i drefi a chymunedau'n cael eu paratoi ar y ffynonellau cyllid amrywiol sydd ar gael a sut y gellid cael mynediad atynt – byddai trafodaeth yn y cyswllt hwnnw'n cael ei gynnal yn y Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd ym mis Rhagfyr ac

adroddiad gydag argymhellion ar ddosbarthu cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer y Cabinet er mwyn iddo ei ystyried

- fe gadarnhawyd y dylai cynlluniau gael eu llywio gan Grwpiau Ardal Aelodau gyda blaenoriaethau eglur yn cael eu hadnabod
- fe hysbyswyd y byddai Cynlluniau Ardal yn ddogfennau byw a fyddai'n cael eu diwygio wrth i flaenoriaethau newid ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan Grwpiau Ardal Aelodau – roedd swyddogion wedi ymrwymo i raglen adolygu i ddatblygu'r broses honno ac i helpu aelodau i adnabod ffynonellau cyllid i ategu blaenoriaethau
- fe eglurwyd y ffactorau a oedd wedi achosi oedi wrth ddatblygu'r cynlluniau gan gynnwys y gwaith a oedd yn gysylltiedig ag ehangu'r cynlluniau gwreiddiol, y broses ymgynghori ac amserlennu cyfarfodydd gyda chynghorau tref/cymuned.

Fe ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai adroddiad yn cael ei gomisiynu i asesu effaith y blaenoriaethau o fewn trefi a chymunedau a chanfod pa effaith a gafwyd o ganlyniad. Cafodd pwysigrwydd cysylltiadau â'r cynghorau tref/cymuned ei amlygu hefyd ynghyd â'r angen am ddull mwy cydgysylltiedig. Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth i'r Cynlluniau Ardal fel y ffordd ymlaen ar gyfer cyflawni blaenoriaethau o fewn cymunedau lleol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylai'r Cabinet –*

*(a) gymeradwyo'r cynnig i fabwysiadu'r Cynlluniau Ardal (sy'n ymgorffori'r Cynlluniau Tref presennol) ar gyfer Llangollen, Corwen a Llanelwy;*

*(b) cymeradwyo'r cyllid ar gyfer y blaenoriaethau a nodir yn y Cynlluniau Ardal y cyfeirir atynt uchod;*

*(c) nodi amserlen ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal yn y dyfodol, a*

*(d) nodi'r datganiad safbwynt ar y sefyllfa ariannol gyfredol ar gyfer Cynlluniau Tref ac Ardal.*

## 8 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol gytunedig ac roedd yn ceisio cytundeb y Cabinet mewn egwyddor i roi benthyciad byrdymor i Gyngor Tref Llangollen. Darparodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- rhagwelid tanwariant o £763,000 ar draws cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol
- roedd 67% o'r arbedion cytunedig wedi cael eu cyflawni hyd yma (targed £3.061m)
- amlygu amrywiannau allweddol o dargedau ar gyfer cyllidebau neu arbedion mewn perthynas â meysydd gwasanaeth unigol
- symudiad cadarnhaol o £85,000 ar falensau ysgolion a ddygwyd ymlaen o 2012/13
- diweddariad cyffredinol ar y Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd gymeradwyo cynnig i neilltuo £100,000 o'r ad-daliad o £152,000 ar daliadau a wnaed dan y Cynllun Lleihau Carbon i'w fuddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at y ffaith bod y lefelau incwm parcio wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol gan achosi pwysau o £108,000 – y prif ardaloedd yr effeithid arnynt oedd y Rhyl a Phrestatyn. Cyfeiriodd at ddyraniad cyllid Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun i gymorthdalu taliadau parcio ceir yn yr ardal a gofynnodd am sicrwydd y byddai cydraddoldeb rhwng yr ardaloedd yr effeithid arnynt i sicrhau na fyddai Rhuthun ar ei cholled pe bai'r pwysau'n cael eu lleddfu â mesurau o fewn y gyfarwyddiaeth. Gofynnodd hefyd am astudiaeth o'r gostyngiad mewn taliadau parcio ceir yn Rhuthun i asesu'r effaith. Nodwyd fod peth gwaith wedi cael ei wneud i asesu effaith y cymhorthdal yn Rhuthun ond ei bod wedi bod yn anodd dod i gasgliad terfynol. Amlygodd y Cynghorydd David Smith yr angen am ymchwiliad pellach i'r broses ar gyfer pennu'r gyllideb os oedd y Cyngor yn dibynnu ar daliadau parcio ceir fel incwm. Hysbysodd y Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol fod y Pwyllgor Archwilio Cymunedau wedi cytuno y byddai adolygiad o'r polisi parcio ceir yn cael ei gynnal ac adroddiad arno'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2014. Cadarnhaodd y byddai'r materion a godwyd gan aelodau'n cael eu cynnwys o fewn yr adolygiad hwnnw.

Cododd y Cynghorydd Meirick Davies gwestiynau am y pwysau ar Gludiant Ysgolion a'r angen i adolygu'r elfen cludiant dewisol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill at ddadleuon blaenorol ar y mater ac ychwanegodd y Prif Weithredwr fod cyllideb ar wahân ar gyfer cludiant dewisol a fyddai'n rhan o drafodaethau ynghylch cyllidebau yn y dyfodol. Nodwyd hefyd fod y gyllideb Cludiant Ysgolion yn codi a gostwng gan ddibynnu ar nifer y diwrnodau ysgol yn ystod y flwyddyn. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bill Cowie, hysbysodd y Cynghorydd David Smith mai'r gobaith oedd y byddai'r broses o ailstrwythuro'r Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol yn cael ei chwblhau erbyn diwedd Mawrth 2014.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet –*

*(a)* *yn nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol gytunedig;*

*(b)* *yn cytuno mewn egwyddor ar y trefniant i roi benthyciad i Gyngor Tref Llangollen i gynorthwyo gyda'r llif arian i ategu buddsoddiad cyfalaf ac i ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau ganlyn arni â'r trefniant os a phan fyddai angen;*

*(c)* *yn cytuno y bydd £100,000 o'r ad-daliad a wnaed dan y Cynllun Lleihau Carbon yn cael ei neilltuo ar gyfer ei fuddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni newydd, ac*

*(d)* *yn cytuno y dylid cynnal astudiaeth o effaith y gostyngiad mewn taliadau parcio ceir yn Rhuthun ar lefelau'r defnydd o feysydd parcio ac incwm a geir o barcio ceir yn y dref.*

## 9 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans Flaenraglen Waith y Cabinet i gael ei hystyried. Cytunwyd y dylid dileu'r cofnod deublyg yn y rhaglen waith ar gyfer mis Ionawr mewn perthynas â'r Achos Busnes Caffael.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet*.

Ar yr adeg hon (11.40 a.m.) torrodd y cyfarfod am egwyl lluniaeth.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylai'r wasg a'r Cyhoedd gael eu gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol am ei bod yn debygol y datgelid gwybodaeth sydd wedi'i hesemptio fel a ddiffinnir yn Mharagraffau 14 a 15 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972*

## 10 MATER BRYS – DIWEDDARIAD AR IAWNDAL AM GYFLOG CYFARTAL

[Cafodd yr eitem hon ei hystyried fel mater o frys, wedi i'r Arweinydd roi rhybudd o hynny ar ddechrau'r cyfarfod.]

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith adroddiad cyfrinachol a oedd yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar drafodaethau'r Cyngor i setlo'i rwymedigaethau cyflog cyfartal ac yn ceisio cymeradwyaeth i'r setliad arfaethedig a oedd yn cael ei nodi yn yr adroddiad. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol rywfaint o'r cefndir i'r cynigion cyfredol ac atebodd gwestiynau'r aelodau arnynt.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn cymeradwyo'r cynigion i setlo hawliadau cyflog cyfartal cyfredol y Cyngor ar y sail a nodir yn yr adroddiad fel a gytunwyd mewn egwyddor gyda Chyfreithwyr yr Hawlyddion.*

## 11 DILEU DYLEDION ARDRETHI BUSNES

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill Mr. Rod Urquhart a oedd newydd gael ei benodi'n Bennaeth Refeniwiau a Budd-daliadau (PRB). Cyflwynodd yntau adroddiad cyfrinachol a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddileu Ardrethi Busnes anadferadwy ar gyfer nifer o gwmnïau lle na fyddai camau i adfer dyledion yn parhau am eu bod naill ai wedi cael eu dirwyn i ben neu eu diddymu. Roedd hanes manwl mewn perthynas â phob cwmni wedi cael ei gynnwys o fewn yr adroddiad.

Trafododd y Cabinet amgylchiadau'r cwmnïau dan sylw gyda'r PRB ac fe fynegwyd pryderon ynghylch arferion a ddefnyddir gan gwmnïau arbennig i osgoi talu i gredydwyr. Ymhelaethodd y PRB ar yr agweddau cyfreithiol a'r camau adfer dyledion a oedd eisoes wedi cael eu cymryd ac fe amlygodd newidiadau diweddar i weithredu'n gynharach yn y broses adennill dyledion os oes angen.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Meirick Davies at adroddiad diweddar gan yr Ombwdsmon ar ordalu ardrethi busnes. Hysbysodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod materion o'r fath yn cael eu gwneud yn hysbys i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a chytunodd i ymchwilio i'r achos penodol yr oedd y Cynghorydd Davies yn cyfeirio ato.

***PENDERFYNWYD*** *gan y Cabinet –*

*(a)* *y byddai'n cymeradwyo'r cynnig i ddileu'r Ardrethi Busnes anadferadwy a nodir yn Nhabl 1 yn yr adroddiad, ac*

*(b)* *y dylai'r Cyngor ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi ei bryderon ynghylch arferion a fabwysiedir gan gwmnïau arbennig i osgoi talu i gredydwyr a gofyn iddi ymchwilio i'r gofynion deddfwriaethol i gau'r diangfeydd hynny.*

## 12 SINEMA A CHANOLFAN GELFYDDYDAU SCALA – ADRODDIAD ARIANNOL

Nodwyd fod y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn aelod o Gyngor Tref Prestatyn ond nad oedd gofyniad iddo ddatgan cysylltiad â'r eitem hon.

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol a oedd yn nodi sefyllfa ariannol gyfredol Scala Prestatyn Company Limited. Trafododd y Cabinet y sefyllfa ariannol gyda'r Pennaeth Cyllid ac Asedau a'r Prif Weithredwr a eglurodd faterion arbennig mewn ymateb i gwestiynau arnynt. Er eu bod yn cytuno i ddirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau gymryd camau gweithredu priodol gofynnodd yr aelodau hefyd am gael eu hysbysu ynghylch unrhyw ddatblygiadau mewn perthynas â'r mater.

***PENDERFYNWYD*** *fod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Cyllid ac Asedau fonitro'r sefyllfa ariannol, rheoli'r gwasanaeth cyflogres ar gyfer Scala Prestatyn Company Limited a chymryd unrhyw gamau gweithredu priodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 p.m.